# Tro da

(Diffyg ymddiriedaeth / parchu dymuniad)

Eisteddai Gari a Ben yn y car yn disgwyl am eu ffrind Guto. Dyna oedd hanes y tri bob tro. Gari a Ben yn eistedd yn disgwyl a Guto bob amser yn hwyr. A phan fyddai'n cyrraedd doedd o byth yn ymddiheuro, dim ond chwilio am esgus. Methu dod o hyd i rywbeth neu'i gilydd bob tro.

"Am faint fyddwn ni'n disgwyl heno, os gwn i?" gofynnodd Gari. "Ac os gwn i beth fydd yr esgus heno, tybed?" gofynnodd Ben.

Trodd Gari y CD yn uwch, nes yr oedd yn diasbedain dros y stryd. Ond doedd yna ddim golwg o Guto yn unman. Roedd hi'n dechrau tywyllu erbyn hyn.

Wrth i'r ddau rhyw fân siarad am hyn a'r llall dyma lygaid y ddau yn taro ar wraig oedrannus yn cerdded yn frysiog ar hyd y stryd gyferbyn. Yn sydyn, dyma'r wraig yn stopio wrth ochr car oedd gyferbyn â'u car nhw. Roedd hi'n gafael yn sownd yn y car. Yn sydyn dyma hi'n syrthio i'r llawr. Aeth Gari a Ben allan o'r car gan adael i'r CD ddiasbedain dros bob man. Wrth iddyn nhw gerdded tuag at y wraig roedd hi erbyn hyn ar ei hyd ar y llawr.

"Ydach chi'n iawn?" gofynnodd Gari.

"Ydw ... mi ydw i'n iawn. Mi fydda i'n iawn mewn munud," meddai'r hen wraig. Roedd hi bron yn methu cael ei gwynt.

"Gwrandewch," meddai Ben, "fedrwn ni ddim eich gadael ar y llawr fan hyn."

"Mi fydda i'n colli fy ngwynt fel hyn droeon yn ystod y dydd... mi fydda i'n iawn mewn munud," meddai'r wraig unwaith eto.

"Na wir," meddai Gari, "mae gen i gar ar draws y ffordd. Mi awn i â chi yn y car adref neu'n syth i'r ysbyty os ydych chi eisiau i ni wneud hynny."

"Lle ydach chi'n byw?" gofynnodd Ben.

Doedd yr hen wraig ddim yn awyddus i roi ei chyfeiriad i'r bechgyn ond, yn y diwedd, ildiodd. "Fflat rhif 3, ar waelod y stryd... yr adeilad brics acw."

Helpodd y bechgyn hi ar ei thraed a'i thywys yn ofalus i'w car ar yr ochr arall i'r stryd. Aeth Ben i eistedd yn y cefn ac eisteddodd yr hen wraig yn y ffrynt efo Gari. Roedd yn amlwg ei

bod yn edrych yn ofnus ond cyn pen dim roedd y car wedi cyrraedd y fflatiau. Helpodd y bechgyn yr hen wraig allan o'r car. A dyma ganu cloch fflat rhif 3.

Ymhen hir a hwyr daeth ei merch i'r drws.

"Mam... mam... beth sy'n bod?" meddai

Esboniodd y bechgyn beth oedd wedi digwydd. Helpodd y bechgyn yr hen wraig i fyny i'r ystafell wely, a thra oedd ei merch yn ei rhoi yn y gwely arhosodd y ddau yn y lolfa i ddisgwyl.

Ar ôl ei rhoi yn y gwely daeth ei merch at y bechgyn.

"Oes yna rywbeth arall fedrwn ni ei wneud?" gofynnodd y ddau.

"Na," meddai hithau, "rydw i wedi ffonio'r meddyg ac mi fydd yma ymhen dim. Beth bynnag, diolch o galon i chi am eich help. Oni bai amdanoch chi efallai mai ar ochr y ffordd y buasai hi wedi bod drwy'r nos."

"Mi fuasen ni wedi dod â hi ynghynt ond roedd hi'n amharod i roi ei chyfeiriad i ni," dywedodd Gari.

Torrodd y ferch ar ei draws, "Oedd, mi roedd hi'n boenus iawn rhag ofn i chi ddod i'r fflat a dwyn ei phethau."

Roedd Gari a Ben wedi dychryn pan glywson nhw hyn. "Oedd hi'n meddwl yn wir y buasen ni'n gwneud hynny ... wel myn brain i," meddai Gari.

Adnod: "Os bydd dyn yn fyddar i gri'r tlawd, ni chaiff ei ateb pan fydd yntau'n galw." Diarhebion 21:13

Gweddi: Helpa ni, O Dduw, i ymddwyn mewn ffordd y bydd pobl yn barod i ymddiried ynom. Amen.

Trafod:

- Trafodwch ymddygiad Gari a Ben.
- Pam oedd y wraig yn amheus o'r bechgyn?